

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# PECYN CAIS
# AM
# SWYDD

www.tancgc.gov.uk

# Rhagarweiniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer ein Gwasanaeth yw iddo 'I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.' Er bod gennym hanes balch o gyflawni, rydym yn gwybod bod yna le i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ymladdwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Heb fod gennym swyddogaethau cymorth corfforaethol yn eu lle er mwyn darparu'r systemau, y prosesau a thechnoleg, ni fyddai'r Gwasanaeth yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau.

Os ydych chi'n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â'r holl fanteision y byddech chi'n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yna beth am ystyried ymuno â ni yn un o'n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch a phob lwc,



**Craig Flannery**
Y Prif Swyddog Tân

# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion all wella eich ffordd o fyw nawr ac i'r dyfodol.

### Cyfraddau cyflog cystadleuol -
wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.

### Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -
Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

### Gwyliau Blynyddol hael –
26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

### Cynllun Hyblyg –
Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

Parcio am ddim ar y safle

Beicio i'r gwaith

Cynllun disgownt i staff

Iechyd a Lles

- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân

# Sut i wneud cais

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a bydd yn cael ei defnyddio yn y broses o lunio rhestr fer. Mae'n bwysig felly bod y nodiadau canllaw isod yn cael eu dilyn wrth lenwi'r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich enw yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio'r rhestr fer yn cynnwys asesu'r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y Fanyleb Person a ddarperir.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster i gwblhau'r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu'r ffurflen monitro cyfle cyfartal na fydd yn rhan o'r broses ddethol ac yn anfon y ffurflen gais yn unig i'r adran sy'n llunio'r rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth o'i dderbyn at bob ymgeisydd.

Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel sy'n llunio'r rhestr fer yn penderfynu a ellir eich cynnwys ar y rhestr fer.

Os na chaiff eich enw ei roi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig, fel arfer cyn pen chwe wythnos i'r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os caiff eich enw ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym cyn pen 2-3 wythnos i'r dyddiad cau fel arfer, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion y profion asesu sydd i'w cynnal a bydd yn rhoi rhestr o'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol i chi ei chario gyda chi, os yw'n berthnasol i'r rôl.

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol fel isafswm ar gyfer pob rôl.**

**Bydd rhai rolau yn amodol ar lefelau uwch o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Rheoli neu'r Adran berthnasol.**

**Lle mae gofyniad wedi'i nodi am wiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nodir y lefel a'r cyfiawnhad ar gyfer hyn isod:**

**LEFEL:** ..........................................................................................................................................

**CYFIAWNHAD:**

**PARATOWYD:** **DYDDIAD ADOLYGU:**

# Manylion am y Gwasanaeth



rydym yn gwasanaethu
**4500**
cilometr sgwâr
(11,700 km$^2$)
o Gymru

Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd y Cynghorau Sir canlynol:

City and County of Swansea – Dinas a Sir Abertawe | Cyngor Castell-nedd Port Talbot – Neath Port Talbot Council | Cyngor Sir Ceredigion | Cyngor Sir Gâr – Carmarthenshire County Council | Cyngor Sir Penfro – Pembrokeshire County Council | Powys

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf sy'n 11,700 km² (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Mae'r Gwasanaeth, sydd â'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tair Isadran. Mae gan y Gwasanaeth y trydydd teneurwydd poblogaeth uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae yna 900,000 o bobl yn byw oddi mewn i ardal ein Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn yn sgil twristiaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno ystod o heriau gwahanol.

Ceir nifer o risgiau o wahanol fath oddi mewn i ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yma hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd ac ar led yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol sydd i'w cael oddi mewn i'r Gwasanaeth.

gyda phoblogaeth o
**910,000**
yn byw mewn
**434,500**
o gartrefi

cydymffurio
**58**
o orsafoedd tân
gyda
**1350**
o staff

**402** Llawn amser
**702** Ar alwad
**23** Canolfan rheoli tân ar y cyd
**243** Staff cynorthwyol

# Proffil Swydd

Cyflog: £44,253

Mae cyfle cyffrous wedi codi i ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru fel Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles, sydd wedi'i leoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghaerfyrddin.

Fel aelod allweddol o'r Adran Risg Gorfforaethol, mae'r rôl hon yn hanfodol wrth gyflawni iechyd a diogelwch drwy herio'n adeiladol ar bob lefel o weithiwr, gan gefnogi'r Gwasanaeth i gyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol, rheoleiddiol a sefydliadol.

Mae'r rôl hon yn gofyn am brofiad o reoli llinell a/neu arwain tîm, gan weithio'n agos gyda rheolwyr, gweithwyr, cyrff cynrychioliadol, partneriaid allanol ac asiantaethau gorfodi.

Bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am ddarparu cyngor iechyd a diogelwch arbenigol ar draws y Gwasanaeth, hyrwyddo diwylliant diogelwch cadarnhaol ac ysgogi gwelliant parhaus mewn perfformiad iechyd, diogelwch a lles. Arwain y gwaith o ddatblygu, gweithredu ac adolygu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau, gan sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi gofynion deddfwriaethol.

Mae'r rôl hon yn cynnwys cynnal a goruchwylio archwiliadau, arolygiadau, asesiadau risg ac ymchwiliadau i ddamweiniau, damweiniau a fu bron â digwydd a damweiniau'n ymwneud â cherbydau, nodi cyfleoedd dysgu a sicrhau bod camau cywiro priodol yn cael eu gweithredu. Byddai profiad o reoli Risg Alwedigaethol ar y Ffyrdd a pharatoi gwybodaeth sy'n ymwneud â materion yswiriant, atebolrwydd a hawliadau yn fanteisiol.

Dylai ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth gadarn o'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol, arfer gorau cydnabyddedig a systemau rheoli ISO.

Mae hwn yn gyfle gwych i weithiwr proffesiynol iechyd a diogelwch profiadol, rhagweithiol a dylanwadol wneud cyfraniad ystyrlon at ddiogelwch, lles a gwydnwch Gwasanaeth Tân ac Achub prysur.

**Y Person**

Rydym yn chwilio am weithiwr proffesiynol hynod drefnus a rhagweithiol sydd â sgiliau cynllunio, cydlynu a datrys problemau rhagorol. Byddwch yn hyderus wrth wneud penderfyniadau cadarn, rheoli blaenoriaethau cystadleuol a chyflawni canlyniadau o ansawdd uchel mewn amgylchedd gweithredol prysur.

Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, arfer gorau a'i weithredu'n ymarferol o fewn sefydliad cymhleth sy'n cwmpasu sawl amgylchedd gweithredol.

Rhaid i chi feddu ar gymhwyster Tystysgrif Gyffredinol NEBOSH neu gymhwyster cyfwerth a dangos ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus, ynghyd â'r parodrwydd i gaffael sgiliau, gwybodaeth a chymwysterau newydd sy'n berthnasol i'r rôl.

Byddai profiad yn y sector cyhoeddus, gwasanaethau brys neu amgylchedd tebyg yn fuddiol ond nid yw'n hanfodol.

Bydd angen i ddeilydd y swydd fod yn hyddysg mewn TG, gyda phrofiad o ddefnyddio rhaglenni Microsoft Office a systemau meddalwedd rheoli iechyd a diogelwch i ddadansoddi gwybodaeth, monitro perfformiad a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

Fel cyfathrebwr rhagorol, byddwch yn gallu ymgysylltu, cefnogi a herio'n adeiladol ar bob lefel o fewn y sefydliad. Byddwch yn dangos sgiliau arwain cryf, gyda'r gallu i ysgogi, datblygu ac ysbrydoli eraill, wrth feithrin diwylliant cadarnhaol, gan sbarduno newid cadarnhaol ar draws Gwasanaeth Tân ac Achub mawr ac amrywiol yn ddaearyddol sy'n cwmpasu dwy ran o dair o Gymru.

Uwchlaw popeth, byddwch yn unigolyn brwdfrydig a hyblyg a all weithio ar y cyd ag eraill wrth hybu diwylliant iechyd, diogelwch a lles cadarnhaol ar draws y Gwasanaeth.

# Swydd-Ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles |
| **RHENG / RÔL:** | Gradd 10 |
| **CYFEIRNOD Y SWYDD:** | ADM.059 |
| **LLEOLIAD:** | Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Caerfyrddin |
| **YN ATEBOL I:** | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| **PRIF DDIBEN Y SWYDD:** | Cynorthwyo Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaethau, gofynion rheoliadol ac arferion gorau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle.<br><br>Darparu cyngor ac arweiniad cymwys i holl Reolwyr a Gweithwyr y Gwasanaeth ar faterion iechyd, diogelwch a lles. |

| **Rhestr o Gyfrifoldebau** | **YN ATEBOL I** |
|---|---|
| 1. Darparu cyngor ac arweiniad proffesiynol cymwys ar faterion iechyd, diogelwch a lles i reolwyr y Gwasanaeth, gweithwyr a phartïon allanol, yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, rheoliadau ategol, a pholisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 2. Darparu cyfrifoldeb rheoli llinell ar gyfer y Swyddog Iechyd, Diogelwch a Lles a'r Cynorthwyydd Risg Gorfforaethol, gan ddarparu cefnogaeth, arweiniad a rheolaeth ar eu llwyth gwaith. Gan gynnwys cwblhau adolygiadau datblygu unigol blynyddol. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 3. Rheoli a chynnal amcanion Iechyd, Diogelwch a Lles y Gwasanaeth a darparu cyngor a chymorth yn ôl yr angen i aelodau'r adran er mwyn hwyluso amcanion yr adran. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 4. Arwain ar ddatblygu ac adolygu Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles ysgrifenedig y Gwasanaeth a Chanllawiau Gweithdrefnol Diogelwch fel eu bod yn ymgorffori'r holl Ddeddfau, Rheoliadau a Chodau Ymarfer a Chanllawiau Cymeradwy cyfredol perthnasol. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 5. Cynrychioli'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth Risg Gorfforaethol mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 6. Cynrychioli'r Gwasanaeth mewn cyfarfodydd/cynadleddau Iechyd a Diogelwch Cymru Gyfan a Chenedlaethol. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 7. Trefnu, cynllunio a chynnal Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Lles y Gwasanaeth. Gan gynnwys briffio Cyfarwyddwyr a chreu Agendâu, Cofnodion a Rhestr Camau Gweithredu. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 8. Arwain ar Archwiliadau ac Arolygiadau Iechyd, Diogelwch a Lles Gorsafoedd Tân, Adrannau a Safleoedd eraill y Gwasanaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a sicrhau bod camau dilynol yn arwain at gasgliadau boddhaol. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 9. Goruchwylio ac ymgymryd â'r holl atgyfeiriadau Asesiadau Clyw Safle Tân a dderbynnir gan yr Adran. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |

| | |
|---|---|
| 10. Datblygu a chyflwyno sesiynau briffio a hyfforddiant i bersonél y Gwasanaeth er mwyn cynyddu eu hymwybyddiaeth o drefniadau Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth, a fydd yn cynnwys hyfforddiant Cynefino ar gyfer pob gweithiwr newydd. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 11. Rheoli, goruchwylio ac ymateb yn unol â hynny i'r holl ymchwiliadau Anafiadau ar Ddyletswydd, Damweiniau a Fu Bron â Digwydd a Damweiniau Cerbydau, gan gynnwys argymhellion ac atgyfeiriadau cysylltiedig. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 12. Adolygu a chadw cofnodion cywir ar gyfer holl Adroddiadau Anafiadau Ar Ddyletswydd, Damweiniau a Fu Bron â Digwydd a Damweiniau Cerbydau trwy'r System Meddalwedd Iechyd a Diogelwch. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 13. Ymgymryd ag ymchwiliadau i ddamweiniau yn ôl yr angen, gan gynnwys cysylltu â'r cyrff gorfodi mewnol ac allanol yn unol â Deddfwriaeth h.y. yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ac Undebau Llafur. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 14. Cwblhau, adolygu a chymeradwyo asesiadau Iechyd a Diogelwch yn unol â'r Ddeddfwriaeth. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 15. Goruchwylio'r gwaith o gwblhau a dadansoddi Ystadegau Perfformiad Anafiadau a Damweiniau ar draws y Gwasanaeth, gan nodi tueddiadau a dysgu. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 16. Casglu a pharatoi gwybodaeth i gefnogi adroddiadau'r Awdurdod Tân. | Dirprwy Bennaeth Risg Gorfforaethol |
| 17. Cefnogi'r Dirprwy Bennaeth Risg Gorfforaethol gyda chasglu a pharatoi gwybodaeth ar gyfer materion Yswiriant, Atebolrwydd a Hawliau. | Dirprwy Bennaeth Risg Gorfforaethol |
| 18. Cynorthwyo'r Dirprwy Bennaeth Risg Gorfforaethol i gasglu ceisiadau allanol am ddogfennaeth, gan gynnwys diogelu Data, ceisiadau mynediad at destun a Rhyddid Gwybodaeth. | Dirprwy Bennaeth Risg Gorfforaethol |

| | |
|---|---|
| 19. Cynorthwyo'r Dirprwy Bennaeth Risg Gorfforaethol i adolygu trefniadau risg i gyhoeddi tystysgrifau Yswiriant. | Dirprwy Bennaeth Risg Gorfforaethol |
| 20. Cefnogi agenda Trawsnewid a Digideiddio'r Adran. | Dirprwy Bennaeth Risg Gorfforaethol |
| 21. Goruchwylio ac adolygu gwybodaeth Iechyd, Diogelwch a Lles a Rheoli Risg Galwedigaethol yr Adran Risg Gorfforaethol sydd ar gael trwy'r safle Insight ar y fewnrwyd. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 22. Cynnal gwybodaeth Risg Alwedigaethol ar y Ffyrdd yr Adran Risg Gorfforaethol, gan gynnwys y system Trwyddedau Gyrru electronig. | Dirprwy Bennaeth Risg Gorfforaethol |
| 23. Cyfrannu at gaffael a monitro contractau, gwasanaeth ac eitemau yn unol â deddfwriaeth a gofynion cyllideb yr adran. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 24. Datblygu dealltwriaeth drylwyr o'r gwahanol swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r Adran Risg Gorfforaethol er mwyn galluogi'r adran i gynnal gwydnwch hirdymor wrth ddarparu'r Gwasanaeth. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 25. Cynnal eu datblygiad proffesiynol drwy fynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a gweithdai lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |
| 26. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r rôl hon. | Pennaeth Risg Gorfforaethol |

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

**MANYLEB Y PERSON**

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD** | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles |
| **LLEOLIAD** | Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Caerfyrddin |
| **RHIF Y SWYDD** | |
| **GRADD** | Gradd 10 |
| **ADRAN** | Adran Risg Gorfforaethol |
| **GWIRIAD DBS** | |

Sicrhewch eich bod yn rhoi sylw i bob un o'r gofynion canlynol ar eich Ffurflen Gais gan y byddant yn cael eu defnyddio i lunio rhestr fer o ymgeiswyr. Dylech gynnwys tystiolaeth sy'n ei gwneud yn amlwg bod eich sgiliau, eich gwybodaeth, eich profiad a'ch galluoedd yn bodloni gofynion yr holl feysydd sy'n berthnasol i'r swydd.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Gradd berthnasol o gymhwyster proffesiynol neu brofiad perthnasol mewn Iechyd a Diogelwch | **Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Thystysgrifau** |
| | Tystysgrif Gyffredinol NEBOSH | **Hanfodol*** | |
| | Cyrhaeddiad addysg da ar lefel TGAU | **Hanfodol*** | |
| | Diploma NEBOSH neu gymhwyster Iechyd a Diogelwch Lefel 6. | Dymunol | |
| | Aelodaeth o Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol neu'n gweithio tuag at gymhwyster. | Dymunol | |
| | Tystiolaeth sy'n dilysu ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus | Dymunol | |
| **Gwybodaeth** | Gwybodaeth am BS OHSAS 18001 ac ISO 45001 | **Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Dealltwriaeth o egwyddorion Diogelu Data a materion sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth bersonol | **Hanfodol*** | |
| | Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol a'r arfer gorau. | **Hanfodol*** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad o hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch a pherfformiad iechyd a diogelwch gwell.<br><br>Profiad o ddatblygu a gweithredu polisïau, gweithdrefnau a systemau rheoli iechyd a diogelwch ar gyfer ymchwilio, adrodd a dadansoddi; risgiau, damweiniau, digwyddiadau a materion diogelwch eraill.<br><br>Profiad o ddarparu hyfforddiant a mentrau ymwybyddiaeth iechyd, diogelwch a lles.<br><br>Profiad o arwain archwiliadau, arolygiadau ac ymchwiliadau i ddigwyddiadau.<br><br>Tystiolaeth o brofiad yn bodloni cydymffurfiaeth â therfynau amser tynn.<br><br>Profiad o gynnal asesiadau iechyd a diogelwch a chymhwyso gwahanol agweddau ar iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle yn unol â Deddfwriaeth.<br><br>Profiad o roi cyngor ar gamau ataliol ac adfer iechyd a diogelwch i leihau risgiau diogelwch.<br><br>Profiad o reoli llinell a/neu arwain tîm.<br><br>Profiad o reoli Risg Alwedigaethol ar y Ffyrdd.<br><br>Profiad o gasglu a pharatoi gwybodaeth ar gyfer materion Yswiriant, Atebolrwydd a Hawliadau.<br><br>Profiad o weithio mewn partneriaeth â Sefydliadau/asiantaethau eraill.<br><br>Profiad o'r Sector Cyhoeddus neu amgylcheddau gwaith tebyg. | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| **Sgiliau Cysylltiedig â'r Swydd / Sgiliau Personol** | Sgiliau trefnu a chydlynu da.<br><br>Sgiliau cyflwyno da<br><br>Parodrwydd i gaffael sgiliau a chymwysterau newydd a nodwyd fel rhai sy'n berthnasol i'r rôl.<br><br>Hyddysg mewn TG a phrofiad o weithio gyda phecynnau MS.<br><br>Sgiliau datrys problemau a gwneud penderfyniadau. | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Profiad o weithio gyda system Meddalwedd Iechyd a Diogelwch<br><br>Y gallu i gynghori, dylanwadu a pherswadio eraill ar draws pob lefel, gan gynnwys y rheiny mewn swyddi uwch. | Dymunol<br><br>Dymunol | |
| **Cyfathrebu** | Ffurflen gais a chyfweliad<br><br>Sgiliau llafar ac ysgrifenedig Saesneg<br><br>Gallu a phendantrwydd i gynghori, hysbysu neu gyfarwyddo personél eraill ar faterion iechyd, diogelwch a lles.<br><br>Sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>Dymunol | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| **Arall** | Meddu ar drwydded yrru gyfredol a fydd yn galluogi deilydd y swydd i gyflawni dyletswyddau'r swydd yn llawn.<br><br>Y gallu i deithio.<br><br>Parodrwydd i weithio'n hyblyg y tu hwnt i oriau gwaith arferol ar adegau. | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | **Ffurflen gais a chyfweliad** |

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk